# Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar 12fed Mai 2022 yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron

Yn bresennol: Y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams.
Denfer Morgan (Clerc).

**92 Ethol Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Robert Davies yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd bwrdeistrefol 2023-24 a 2024-25.

Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r cyn Gadeirydd, y Cynghorydd Iwan Thomas am ei wasanaeth i'r Cyngor yn ystod ei ddau dymor fel Cadeirydd.

Diolchodd y Cynghorydd Thomas ei gyd Gynghorwyr a'r Clerc am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**93 Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd**

Arwyddodd y Cadeirydd newydd etholedig y Datganiad o Dderbyn Swydd Cadeirydd.

**94 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies ac Eirlys James-Evans a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**95 Ethol Is-gadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Ray Williams yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd bwrdeistrefol 2023-24 a 2024-25.

**96 Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-Gadeirydd**

Arwyddodd yr Is-gadeirydd newydd etholedig y Datganiad o Dderbyn Swydd Is-Gadeirydd.

**97 Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol 12fed Mai 2022**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 12fed Mai 2022 fel rhai cywir.

**98 Ethol Cynrychiolydd i Un Llais Cymru**

Etholwyd y Cynghorydd Michelle Davies i gynrychioli’r Cyngor ar Un Llais Cymru.

**99 Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer Cyfrifon Blynyddol 2021/2022**

Cytunwyd gofyn i Mr Gwyn Jones fod yn Archwilydd Mewnol ar gyfer archwilio Cyfrifon Blynyddol 2021-22.

.

**100 Cynllun Taliadau Aelodau ar gyfer 2023-24**

Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2022 a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu’r Cynllun canlynol ar gyfer 2022-23:

*Taliadau a gynhwysir yn y Cynllun*

Dyfarniad 43 – Costau gofal
Dyfarniad 4(20230 – Taliad tuag at dreuliau a nwyddau
traul y swyddfa.
Dyfarniad 46 – Costau teithio
Dyfarniad 47 – Taliad cynhaliaeth

*Taliadau na chynhwysir yn y Cynllun*

Dyfarniad 45 – Taliad cyfrifoldebau penodol
Dyfarniad 48 – Lwfans colled ariannol
Dyfarniad 49 – Lwfans presenoldeb
Dyfarniad 50 – Taliad Pennaeth Dinesig
Dyfarniad 51 - Taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig.

**101 Rheolau Sefydlog**

**NODWYD** nad oedd y Rheolau Sefydlog diwygiedig wedi’u derbyn oddi wrth Un Llais Cymru ac i ohirio’r drafodaeth ar y mater tan cyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7:45 y.h.